

Adroddiad Mis Chwefror UM Aber

Mae'r adroddiad hwn yn ddiweddariad ar ddatblygiadau yn UM ers yr adroddiad diwethaf i'r Senedd ym mis Tachwedd ac adroddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Rhagfyr. Mae'r adroddiad yn cynnwys diweddariad gan bob swyddog ar eu meysydd gwaith. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys sylwadau gan y tîm cyfleoedd a'r gwasanaeth cyngori fel bod modd deall mwy am y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud i gefnogi myfyrwyr a gweithgareddau yn UM.

Crynodeb y Llywydd - Dhan

Rwyf wedi penderfynu cynnwys ystod ehangach o wybodaeth am weithgareddau Undeb y Myfyrwyr. Cynhwysir diweddariadau gan wasanaeth cyngor UM, gwaith Gwirfoddoli, y swyddfa Cyfleoedd a chan y Prif Swyddog Gweithredol. Y bwriad yw rhoi gwell dealltwriaeth i chi o'r holl waith sy'n digwydd yn UM. Mae gennym lawer o ddigwyddiadau mawr ar y gweill y semester hwn, mae Superteams wedi lansio'n llwyddiannus, mae Aber7s ar y ffordd ac eleni rydym wedi gweld cynnydd sylweddol o ran digwyddiadau sydd dan arweiniad myfyrwyr yn cael eu cynnal yn UM, megis Noson Bollywood sy'n dod yn ddigwyddiad rheolaidd poblogaidd. Mae mwy o ymgysylltu â gweithgareddau UM nag erioed ac rydym wedi gweld llawer mwy o ddi-ddordeb eleni o ran myfyrwyr yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r undeb. Gwelwyd cynnydd eleni yn aelodaeth cymdeithasau a chlybiau UM ond bu cynnydd hefyd yn nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll yn etholiadau UM a gynhelir cyn bo hir. Dengys hyn bod corff y myfyrwyr wedi ymgysylltu ac eisiau bod yn rhan o'n gwaith.

Mae penderfyniad y Brifysgol i ddadfuddsoddi mewn tanwydd ffosil wedi ei groesawu gan fyfyrwyr ac mae sefydliadau partner, SOS UK, People and Planet a grwpiau XR Myfyrwyr a rhai Lleol wrth eu bodd gyda'r newyddion. Mae myfyrwyr yn gweld y Brifysgol yn cymryd cam i'r cyfeiriad cywir. Edrychaf ymlaen at eistedd ar Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Brifysgol er mwyn parhau i weld y Brifysgol yn symud ymlaen gyda'i strategaeth datgarboneiddio. O ran cynaliadwyedd, pasiodd y Senedd bolisi sy'n rhoi mandad i'r UM i lobïo'r Brifysgol i ddod yn Aelod Cyswllt o Electronics Watch; rwy'n credu bod hon yn fenter wych, yn achos gwych gyda phwrpas da, mae o fudd i'r Brifysgol trwy roi archwiliad i'n Cadwyn Gyflenwi a gall wella ein sgôr yn y Green Universities Rankings lle rydyn ni yn safle 84 ac ar ei hôl hi o gymharu â Bangor sydd yn yr 20fed safle ac Abertawe sy'n 9fed ac ar lefel debyg i Brifysgolion metropolitaidd mawr fel Prifysgol Bryste a Phrifysgol Aston. O ystyried ein bod yn Brifysgol glan môr, wedi'n hamgylchynu gan natur, gydag adrannau mawr fel IBERS a Daeryddiaeth yn llawn myfyrwyr sy'n teimlo angerdd dros yr amgylchedd, mae'n hen bryd i ni beidio â bod ar ei hôl hi yn y maes hwn.

Byddwn yn croesawu Cynhadledd UCM Cymru lle bydd cannoedd o gynrychiolwyr o bob rhan o Gymru yn ymgynnull i drafod polisiau a phenderfynu ar yr hyn y dylai'r undeb cenedlaethol weithio arno.

Darpariaeth Cyngori UM

Mae gan ein Gwasanaeth Cyngori un Cynghorydd llawn amser ac oherwydd trosiant staff rydym wedi bod yn gweithredu'r gwasanaeth trwy ein Rheolwr Cymorth a Chynrychiolaeth fel rhan o'i rôl am y rhan fwyaf o'r tymor cyntaf. Er mai dim ond ers mis Tachwedd mae gennym Gyngorydd llawn amser, mae ein gwasanaeth cyngori poblogaidd wedi cael 1081 o gysylltiadau cyngori myfyrwyr trwy ddarparu gwybodaeth a gwaith achos uniongyrchol. Her fawr i'n gwasanaeth yw'r ffaith mai ni sy'n darparu'r unig ffynhonnell annibynnol o gyngor a chefnogaeth mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â'r Brifysgol. Gallai hynny gynnwys anghydfod am lety, dyled ariannol, dilyniant academiaidd neu gamau disgyblu neu bryderon am ymddygiad. Yn ogystal ag arbenigedd academiaidd rydym yn darparu cymorth a chngor ynghylch arian, llety preifat, cwynion, heriau personol ac yn gweithredu hefyd fel clust i wrando ar ystod o fyfyrwyr sydd heb gefnogaeth (myfyrwyr ag ystyriaethau ychwanegol fel anabledau neu heriau cymdeithasol) sydd angen gwasanaeth galw i mewn sydd heb gam brysbennu nac unrhyw rwystrau. Mae capasiti'r gwasanaeth yn her enfawr o ran y ddarpariaeth yn ogystal â'r gwaith o'i hyrwyddo i fyfyrwyr. Credwn y dylai ein gwasanaeth Cyngori gael ei hyrwyddo fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer myfyrwyr sydd mewn anhawster, ond mae cyfyngiadau yn y ffyrdd y gallwn hyrwyddo ein gwaith cyngori yn uniongyrchol; er enghraifft mewn sgysiau croeso y gofynnwyd i mi eu cyflwyno, rhoddwyd tua 5 i 10 munud i UM i siarad am bob agwedd ar ein gwaith, ond mae Cymorth Myfyrwyr yn cael tua 20 munud i siarad am eu gwasanaeth nhw yn unig. Wedi dweud hynny, rydym yn betrusgar ynghylch hyrwyddo'r gwasanaeth ymhellach o ystyried yr adnoddau sydd ar gael ac yn ddelfrydol, mae angen o leiaf un Cynghorydd llawn amser arall arnom i allu cwrdd â'r galw presennol gan fyfyrwyr hyd yn oed (rydym hefyd yn ymwybodol bod gan fyfyrwyr Nyrzio a milfeddygol anghenion cymhleth ac y byddant hwythau'n cyrraedd cyn bo hir).

Recriwtio a newidiadau staff

Cefnogir Undeb y Myfyrwyr yn bennaf gan:

- 5 Swyddog etholedig llawn amser
- 13 aelod o staff llawn amser
- 3 aelod o staff sy'n fyfyrwyr (yn gweithio yn y dderbynfa)

Mae Undeb y Myfyrwyr yn annibynnol ar y Brifysgol ac o'r herwydd nid yw ein staff yn gyflogedig gan y Brifysgol ac maent yn gweithio yn unol â thelerau ac amodau gwahanol ac ar raddfa gyflog wahanol (nad yw'n cyfateb i system raddio'r Brifysgol). Rydym wedi cael cyfnod o newid staff trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf ac mae hynny wedi roi rhywfaint o arbedion ar gyflogau ond mae wedi golygu bod gwaith y rolau hynny wedi cael ei ysgwyddo gan weddill y staff yn y cyfamser, er enghraifft, roedd ein derbynfa'n cael ei chynnal yn llwyr gan ein staff presennol ar sail rota. Rydym wrth ein bodd ein bod wedi croesawu Cydlynnydd Chwaraeon newydd yn ogystal â Rheolwr Cyfleoedd, Cydlynnydd Cymdeithasau a Chynghorydd Myfyrwyr a byddwn yn recriwtio ar gyfer Cydlynnydd Llais y Myfyrwyr yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.

Un Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu rhan amser sy'n gyfrifol am ein sianeli Cyfathrebu, felly mae adrannau unigol yn gyfrifol am gydlynu eu herthyglau cynnwys gwefan eu hunain yn ogystal â'r cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo trwy ddeunydd caled megis posteri ac ati.

Rhywbeth arall sy'n rhoi her fawr i ni o ran adnoddau yw'r gwaith o gefnogi digwyddiadau a gweithgareddau ar ran clybiau neu gymdeithasau neu yn gyffredinol. Byddem wrth ein bodd yn gallu cydlynu rhagor o ddigwyddiadau adeiladu cymuned a gweithgareddau'n rhan o raglenni megis sesiynau cwrdd a chyfarch, digwyddiadau cymdeithasu di-alcohol, teithiau, boreau coffi, ac ati. Fodd bynnag, mae amser ein holl staff wedi'i lenwi ar hyn o bryd gyda'u hamcanion a'u gwaith cyfredol ac felly mae ychwanegu unrhyw weithgaredd y tu hwnt i'r hyn yr ydym yn ei ddarparu eisoes yn rhoi pwysau mawr - ar yr adegau prysuraf fel arfer.

Eleni, rydym wedi bod yn gweithio gyda Chwarae Teg i ennill eu Gwobr Cyflogwr Chwarae Teg ac rydym yn falch o'r gwaith a gyflawnwyd i sicrhau ein bod yn cwrdd â'n disgwyliadau uchel o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Cyllid yr Undeb

Yn ogystal â rheoli a chydlynu taliadau ac incwm trwy ein staff a'n gweithgaredd craidd, mae ein gwasanaeth cyllid yn gyfrifol hefyd am gyllid ein 150 o Glybiau a Chymdeithasau. Mae ein tîm o ddau aelod o staff yn cynnal trafodion ariannol a chyfrifon 150 o grwpiau myfyrwyr sy'n cynnwys eu holl wariant a'u hincwm ac olrhain a llofnodi pob gwariant i sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â chyfraith elusennau yn ogystal â delio â'u holl ymholiadau ariannol. Mae holl weithgaredd aelodaeth Clybiau a Chymdeithasau yn ogystal ag unrhyw gynnyrch a werthir neu ddigwyddiadau yn cael eu rheoli trwy'r wefan a dim ond y staff all ei gweinyddu. Mae'r UM hefyd yn ysgwyddo costau'r holl daliadau trafodion ar gyfer taliadau electronig Clybiau a Chymdeithasau yn hytrach na'u trosglwyddo yn ôl i Glybiau a Chymdeithasau gan ein bod am annog myfyrwyr i drafod a chadw cyn lleied o arian parod â phosibl.

Cyfleoedd Myfyrwyr

Cefnogir ein gwaith Cyfleoedd gan dri aelod o staff llawn amser ac Undeb y Myfyrwyr sy'n gyfrifol am gefnogi holl glybiau chwaraeon cystadleuol ac anghystadleuol y Brifysgol a'u gweithgareddau, cymdeithasau diddordeb cyffredin a chymdeithasau academiaidd (y cyfan yn cael eu cwmpasu gan Tim Aber). Mae hyn yn cynnwys trefnu trafndiaeth, timau a'r citiau ar gyfer yr holl gemau Rhyng-Brifysgol a phob blwyddyn mae ein timau'n teithio mwy na dwywaith y pellter o amgylch y byd i gynrychioli'r Brifysgol.

Mae'r Clybiau a'r Cymdeithasau'n cael eu harwain gan oddeutu 650 o aelodau pwyllgor gwirfoddol. Caiff aelodau'r pwyllgorau sydd â swyddi allweddol hyfforddiant yn ystod yr wythnos cyn y penwythnos croeso mawr ar sut i ganfod eu ffordd o amgylch gwasanaethau cymorth UM, ein disgwyliadau ohonynt, sut i ddefnyddio'r wefan ac arfer da Cyfathrebu, prosesau a chyfyngiadau cyllid, a lle bo angen, rydym hefyd yn darparu hyfforddiant Asesu Risg a Chymorth Cyntaf.

Rydym hefyd yn cydlynu 3 phrif ddiwyddiad sy'n hynod boblogaidd gyda'n myfyrwyr presennol a chyn-fyfyrwyr. Mae Varsity, Superteams ac Aber 7's i gyd yn digwydd dros yr ychydig fisoedd nesaf ar benwythnosau a bydd angen ein tîm staff cyfan a nifer fawr o wirfoddolwyr Tîm-A i'w cynnal yn llwyddiannus.

Mae yna nifer o heriau sy'n gysylltiedig â'n gwaith gyda Chlybiau a Chymdeithasau. Ar hyn o bryd, mae 43% o fyfyrwyr yn Nhîm Aber ac yn aelodau o nifer o Glybiau a Chymdeithasau. Yn ddelfrydol, hoffem i bawb ymuno â chlwb neu gymdeithas ac wrth i fwy gymryd rhan mae'n dod yn fwyfwy anodd darparu gwasanaeth cymorth o ansawdd uchel sy'n annog datblygiad grwpiau er mwyn diwallu anghenion a dymuniadau myfyrwyr.

Mae'n anodd cefnogi amrywiaeth a holl weithgaredd y grwpiau ac rydym yn ymwybodol bod rhai gweithgareddau'n fwy o risg nag eraill o safbwynt iechyd a diogelwch, megis gweithgareddau ar y môr neu rai allai roi straen ar y corff yn sgil cyswllt corfforol cryf. Yn ogystal â rheoli'r risgiau iechyd a diogelwch hyn, rydym bellach yn categoreiddio grwpiau o ran risg enw da/gwleidyddol. Wrth i ni arwain twf mewn gweithgareddau, rydym hefyd yn esgor ar fwy o gymhlethdod o ran grwpiau a gweithgareddau. Rydym bellach wedi agor ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr i wirfoddolwyr Clybiau a Chymdeithasau ond ni allwn gynnig hyn i'r holl aelodau eto. Mae myfyrwyr yn aml yn cysylltu â'r Tîm Cyfleoedd i ddatrys achosion amrywiol o wrthdaro neu helynt a all godi mewn grŵp neu mewn perthynas â'u bywydau personol. Er bod y tîm yn fwy na pharod i gyfeirio achosion at y man gorau, maen nhw'n awyddus i sicrhau eu bod yn hawdd mynd atynt ac am roi'r amser cychwynnol i wrando eu hunain. Mae hyn oll yn pentyrru ac yn effeithio ar gapasiti yn gyffredinol.

Mae ystod o anghenion teithio gan lawer o'n grwpiau myfyrwyr hefyd ac mae hynny'n rhoi heriau ychwanegol i UM. Gyda chyllideb gyfyngedig, dim ond ar gyfer nifer gyfyngedig o Glybiau Chwaraeon y gallwn ddarparu teithiau bws. Nid oes unrhyw gwmnïau llogi bws mini yn lleol ac yn lle hynny, mae gennym nifer fach o gerbydau ar brydles y gall aelodau grwpiau sy'n cwrdd â meini prawf llym eu gyrru neu fel arall, mae angen i grwpiau ddibynnu ar gerbydau eu haelodau eu hunain. Rydym yn darparu gwiriadau ymgyfarwyddo ac ati ond ni allwn gynnig mwy na chyflwyniad sylfaenol i'r polisiâu perthnasol a'r cerbydau eu hunain a hoffem allu rhoi mwy o fyfyrwyr ar gludiant wedi'i drefnu gyda gyrrwr.

Rydym hefyd yn gorwario swm bach ar ein cyllideb BUCS bob blwyddyn i alluogi pob tîm rhyng-Brifysgol posibl i gystadlu. Eleni bydd rhaid i ni wynebu dewis anodd o ba dimau y bydd angen i ni eu tynnu o'r gynghrair os na allwn ddod o hyd i gyllid ychwanegol. Credwn y byddai hyn yn drueni gan ein bod yn gwybod bod gornestau cystadleuol yn erbyn timau o Brifysgolion eraill yn ychwanegu at y profiad ehangach yn y Brifysgol a chredwn y gallai lleihau'r timau sy'n cystadlu effeithio ar ddewis rhai myfyrwyr o Brifysgol.

Gwirfoddoli

Mae UM wedi gweithio'n galed i ehangu gwaith gwirfoddoli myfyrwyr dros y 3 blynedd diwethaf. Mae ein Gwobr Aber am wirfoddoli bellach yn ei thrydedd flwyddyn ac rydym bellach yn cynorthwyo myfyrwyr i gael mynediad at gyfleoedd ac i gofnodi eu gweithgareddau a'u horiau mewn hyb ar-lein. Rydym hefyd yn cydlynu ystod o ddigwyddiadau unigol gan gynnwys nifer o sesiynau glanhau'r traeth, gwyllo dolffiniaid gyda ffrindiau dementia, paentio gardd meithrinfa, plannu coed, cyfrif adar yng ngardd yr Is-Ganghellor, a byddwn yn cynnal ein trydydd te parti i henoed cyn bo hir. Rydym ar fin cynnal prosiect plannu coed mawr ar y cyd â Bangor. Rydym yn hynod falch o'r budd gaiff y myfyrwyr sy'n cymryd rhan o ran datblygu sgiliau, gwneud ffrindiau ac wrth hyrwyddo lles cadarnhaol. Rydym hefyd yn teimlo bod y math hwn o weithgaredd yn adeiladu cysylltiadau cadarnhaol â'r gymuned ehangach. Hyd yn hyn eleni, mae tua 250 o wirfoddolwyr wedi cwblhau bron i 5,000 o oriau o weithgareddau gwirfoddol sydd wedi bod o fudd i'w cyd-fyfyrwyr neu'r gymuned leol.

Un her fawr wrth ddatblygu gwirfoddoli yw capasiti'r staff i gefnogi'r ehangu a'r ddarpariaeth. Mae ein gwaith gwirfoddoli yn cael ei gyflawni fel rhan o rôl aelod staff sydd yn delio â chynrychiolaeth academiaidd hefyd, ond mewn byd delfrydol byddem yn gallu neilltuo aelod staff cyfan i ganolbwyntio ar y naill faes a'r llall.

Er ein bod wedi llwyddo i ddod o hyd i ystod o gyfleoedd, hoffem allu canfod rhagor a bydd angen i'n prosiectau ystyried teithio'n bellach er mwyn cael mynediad at gyfleoedd. Cyfyngedig hefyd yw ein gallu i ddarparu dilyniant a chynnig rhywfaint o oruchwylio trwy gyswllt personol â gwirfoddolwyr. Felly hefyd ein gallu i adnabod a datblygu sgiliau allweddol. Rydym yn ymwybodol bod cynyddu ymwneud myfyrwyr â chyfleoedd gwirfoddoli yn rhan o strategaeth y Brifysgol a hoffem allu sicrhau gwasanaeth o'r ansawdd uchaf.

Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Eleni, gwelwyd gwaith mawr yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd; bu cynnydd sylweddol gyda'r polisi ar Ddadfuddsoddi ac mae'n symud tuag at gael ei gwblhau. Mae'r Brifysgol wedi creu pwyllgor ar gyfer yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd a bydd Lydia, y Swyddog Llesiant a Llywydd UM yn aelodau o'r pwyllgor hwnnw. Gobeithiwn y gallwn gyfrannu at strategaeth Datgarboneiddio'r Brifysgol i'n helpu i gyrraedd lle mae angen i ni fod.

Wrth symud ymlaen mae yna nifer o bolisiâu Cynaliadwyedd allweddol sydd wedi gwneud cynnydd sylweddol eleni fel y polisi olew palmwydd cynaliadwy a pholisi Ymgyrch Dim Slaf dai.

Mae'r Ymgyrch Dim Slaf dai wedi bod yn boblogaidd iawn ymhlith myfyrwyr - roeddent wedi trefnu gweithdai ar y mater hwn gyda People and Planet ac wedi creu polisi a gafodd ei dderbyn gyda llwyddiant ysgubol yn Senedd y myfyrwyr ac eto yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Dangosir y polisi ei hun isod.

Noda'r Undeb hwn:

1. Fod y diwydiant electroneg byd-eang yn ddiwydiant risg uchel ar gyfer caethwasiaeth fodern.
2. Bod Deddf Caethwasiaeth Fodern y DU (2015) yn ceisio mynd i'r afael â chaethwasiaeth, llafur gorfodol a masnachu pobl sy'n digwydd heddiw. Ar 29 Hydref 2015, daeth darpariaethau'r Ddeddf ynglŷn â thryloywder cadwynau cyflenwi (adran 54) i rym. Mae'r darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff masnachol a sefydliadau er budd i'r cyhoedd, gan gynnwys prifysgolion, gyhoeddi datganiad yn nodi'r camau y mae'r sefydliad wedi'u cymryd i sicrhau nad yw caethwasiaeth na masnachu pobl yn digwydd yn unrhyw un o'i gadwyni cyflenwi nac mewn unrhyw ran o'i fusnes ei hun. Caiff y datganiad hwn ei alw'n "datganiad gwrth-gaethwasiaeth" yn aml.
3. Bod, yn ôl y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, tua 25 miliwn o ddynion, menywod a phlant ledled y byd mewn llafur gorfodol o ryw fath. Yn fyd-eang, mae 5.4 o ddioddefwyr caethwasiaeth fodern ar gyfer pob 1,000 o bobl, ac mae 1 o bob 4 o ddioddefwyr caethwasiaeth fodern yn blant (i).
4. Bod y diwydiant electroneg yn ddiwydiant risg uchel ar gyfer caethwasiaeth fodern. Yn anffodus, mae'r amodau hyn yn gyffredin yn y diwydiannau electroneg a thechnoleg, mwyngloddio a mwynau a llongau.
5. Bod Electronics Watch (EW) yn sefydliad monitro hawliau llafur ar gyfer Ewrop gyfan sy'n cynnal ymchwiliadau i amodau gwaith mewn ffatrioedd ledled y byd. Eu prif ffocws yw arferion llafur ffatrioedd sy'n gwneud nwyddau electronig (ii).
6. Bod 52 o Brifysgolion y DU, wedi dod yn aelodau cysylltiol o Electronics Watch ers ei ffurfio yn 2013, gan gynnwys pob un o Brifysgolion yr Alban a ariennir yn gyhoeddus.
7. Mae hyn yn golygu y caiff yr holl gyflenwyr nwyddau electronig i'r Prifysgolion hynny eu monitro bellach am arferion hawliau llafur yn eu cadwyni cyflenwi.
8. Er bod hyn yn gam gwych ymlaen, bod ein Prifysgol hefyd yn brynwr mawr ar gyfer nwyddau electronig.

Cred yr Undeb hwn:

1. Y dylai ein Prifysgol hefyd fonitro ei chadwyni cyflenwi.
2. Bod cael prifysgolion yn aelodau cysylltiol o EW wedi galluogi gweithwyr i gael nifer o lwyddiannau mawr o ran amddiffyn eu hawliau.
3. Mai EW yw'r unig sefydliad monitro sydd â hygyrdd gyda gweithwyr a'u mudiadau, ac mae'n ymroddedig yn benodol i fonitro cadwyni cyflenwi prifysgolion ac awdurdodau cyhoeddus.
4. Y bydd cael mwy o brifysgolion yn aelodau cyswllt yn cryfhau grym y prynwyr ar y cyd i ddelio ag achosion o dramgwyddo hawliau llafur yn y sector electroneg.
5. Y dylai'r Brifysgol ddod yn aelod cysylltiol o EW.

Penderfyna'r Undeb hwn:

1. Roi mandad i'r tîm swyddogion llawn amser i lobïo'r Brifysgol i ddod yn aelodau cysylltiol o EW.
2. Roi mandad i'r tîm swyddogion llawn amser i alw am gynrychiolaeth myfyrwyr ar bob un o bwyllgorau pwrcasu'r Brifysgol.
3. Roi mandad i gynrychiolwyr myfyrwyr sy'n aelodau o bwyllgorau pwrcasu i bwysu am aelodaeth gysylltiol o EW.
4. Roi mandad i bob cynrychiolydd myfyrwyr sy'n aelodau o'r pwyllgorau pwrcasu i bwysu am nwyddau electronig mwy moesegol a mwy cynaliadwy gan reolwyr caffael y Brifysgol.

i Cyfeirnod: Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, *Forced labour, modern slavery and human trafficking*, <http://www.ilo.org/global/topics/forced-labour/lang--en/index.htm>

ii Cyfeirnod: *Electronics Watch*, <http://electronicswatch.org/en>

Ardaloedd Anabledd

Mae myfyrwyr wedi pleidleisio dros bolisi i lobïo'r Brifysgol i wella ei hardaloedd anabledd. Mae hyn yn cynnwys mynediad i'r anabl o fewn adeiladau adrannol a phob rhan o'r campws. Mae'r polisi'n gynnig i atgyweirio'r systemau lifft sydd eisoes wedi'u gosod, ac i sicrhau diogelwch y lifftiau yn rhai o'r darlithfeydd hefyd. Mae cael lle i'r rhai sy'n methu cael mynediad yn achosi llawer o broblemau yn enwedig yn ystod y gaeaf os ydyn nhw'n defnyddio cadeiriau trydan. Mae hwn yn ateb hawdd - mater o edrych ar y Brifysgol a gweld lle y gellir gwneud y gwelliannau. Un enghraifft yw'r lifftiau glas y tu allan i Undeb y Myfyrwyr sydd byth a hefyd ddim yn gweithio a ddim ar gael i lawer eu defnyddio.

Codwyd y mater hwn yn y cyngor ym mis Chwefror ac mae Stephen Forster yn y grŵp Gweithredol wedi bod yn gohebu ynghylch dod o hyd i'r achosion hyn lle mae cyfleusterau anabledd yn ddiffygiol a bydd y Brifysgol yn ceisio datrys y materion hynny a thrwsio'r cyfleusterau hyn. Mae'r Brifysgol yn cymryd y polisi hwn o ddirif, mae gan oddeutu 18% o'n myfyrwyr anabledd datganedig felly mae'n bwysig bod ein campws yn hygyrch a bod digon o gyfleusterau i gefnogi ein holl fyfyrwyr.

Diweddariad Llesiant - Lydia Chilvers

Ers dod yn ôl wedi'r Nadolig, rwyf wedi bod yn brysur yn paratoi pethau ar gyfer y misoedd prysur sydd i ddod. Er enghraifft, mae'n fis hanes LGBTQ+ ac rwyf wedi bod yn paratoi arddangosfa am bobl anneuaid ledled y byd, a fydd i'w gweld yn ystod ail hanner y mis.

Rwyf hefyd yn cynnal 'Chweflewog', sef ymgyrch sy'n annog menywod i beidio ag eillio eu corff trwy gydol mis Chwefror ac mae'n un o fy mlaenoriaethau a osodais ar gyfer y flwyddyn. Rwy'n cynnal yr ymgyrch hon gan ei bod yn rhywbeth sy'n agos at fy nghalon a'r prif nod yw chwalu'r stereoteip rhyw y dylai menywod gael cyrff di-flew. Byddwn wrth fy modd pe bai mwy o ferched yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â bod yn flewog ac i fwy o ferched deimlo eu bod wedi'u grymuso i dyfu blew eu corff trwy weld menywod eraill yn cofleidio eu hochr naturiol. Hefyd, ochr yn ochr â hyn, rwy'n gobeithio codi arian ar gyfer Cymorth i Fenywod Cymru, elusen cam-drin domestig sy'n cefnogi UMAber trwy ddarparu hyfforddiant ymyrraeth gwyliedydd am ddim i fyfyrwyr.

Rwyf hefyd wedi bod yn gwneud cynlluniau ar gyfer wythnos Gall y Ferch Hon, sef wythnos gyntaf mis Mawrth. Byddwn yn cynnal cynhadledd o sgysiau gan ferched ysbrydoledig lleol ar y nos Lun, byddaf yn arwain gorymdaith Hawlio'r Nos yn Ôl ar y nos Fawrth, bydd y *Vagina Monologues* yn cael eu perfformio ar y nosweithiau Mercher, Iau a Gwener. Gobeithio y byddaf yn gwneud brecinio mawr gwaedlyd ar y diwrnod cyntaf a bydd dosbarthiadau campfa a sesiynau hyfforddi i ferched yn unig trwy gydol yr wythnos.

O ran fy mlaenoriaethau eraill, rydym wedi symud ymlaen o ran yr oergell gymunedol gan fod y gofod yr ydym yn bwriadu ei ddefnyddio wedi'i glirio, felly nawr mae angen i ni edrych ar gael addurno'r lle a chael gradd hylendid. Ar hyn o bryd, rwy'n edrych ar wahanol opsiynau ar gyfer cyllid. Un o fy mlaenoriaethau eraill oedd cael biniau compost ar y campws ar gyfer pecynnau Vegware ond buan y sylweddolais y byddai'n anymarferol ar hyn o bryd oherwydd nad oes unrhyw gyfleusterau compostio yng Nghymru sy'n gallu prosesu pecynnau Vegware. Felly, rwyf wrthi'n drafftio llythyr i'w anfon at y cyngor yn gofyn a ellid diweddarau rhai cyfleusterau compostio, gan fod canran fawr o fusnesau bellach yn defnyddio pecynnau Vegware ond maent yn cael eu gwaredu gyda gwastraff cyffredinol yn hytrach na'u compostio fel y dylent.

Yn nhymor un, cynhaliais ychydig o sesiynau hyfforddi Dim Esgusodion ar gyfer pwyllgorau clybiau a chymdeithasau ac rwy'n bwriadu parhau â hyn yn nhymor 2. Hefyd, rwy'n ystyried sut i ymgysylltu â staff y Brifysgol ynglŷn â'r addewid.

Diweddariad Cyfleoedd - Wojciech Salski

Wrth ddod at ddiwedd y flwyddyn ac i mewn i 2020, rwyf wedi gweithio ar sawl prosiect a digwyddiad gyda'r Swyddfa Cyfleoedd yn ogystal â'r adrannau eraill yn UM a sefydliadau allanol eraill. Isod, rwy'n cyflwyno'r adroddiad diweddaraf yn cynnwys yr holl gynnydd a'r camau a gymerwyd yn ystod y tri mis diwethaf.

Cyn gwyliau'r Nadolig, bûm yn cynorthwyo gyda threfniadau digwyddiad "Aros yn Aber ar gyfer y Nadolig", a oedd yn galluogi myfyrwyr nad oeddent yn ymadael am wyliau gyda'u teuluoedd i ddod i adnabod rhai eraill oedd mewn sefyllfa debyg a chanfod cwmni ar gyfer y dyddiau o ddathlu oedd o'u blaenau. Rhoddwyd anrheg i bob un (het *beanie* TimAber) yn ogystal â gwybodaeth am y digwyddiadau a oedd i'w cynnal yn y dref dros gyfnod y Nadolig.

Gyda mis Chwefror mewn golwg, mae'r Swyddfa Cyfleoedd wedi bod yn gweithio'n ddwys ar baratodau Superteams 2020. Fel Swyddog Cyfleoedd, fi sy'n gyfrifol am gasglu gwirfoddolwyr, dyfarnwyr, a llogi ffotograffwyr yn ogystal â pharatoi tri digwyddiad mawr ar y penwythnos. Rwyf wedi bod mewn cysylltiad â bar Academy yn y dref, gan weithio ar eu trefniadau ar gyfer parti wedi Superteams y Merched, ond gallaf gadarnhau erbyn hyn mai yng Nghlwb Pêl-droed Aberystwyth y bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal. Rwyf wedi paratoi'r rhestrau o gyfranogwyr (gwirfoddolwyr, dyfarnwyr a ffotograffwyr) a gyda chymorth gan fy nghyd-swyddogion a staff UM, rwyf wedi creu campau prawf campfa a 'digwyddiad dirgel'. Mae'n werth nodi y bydd y 'digwyddiad dirgel' yn cynnwys 13 her tîm i fyfyrwyr, megis y cwrs rhwystrau pwmpiadwy, cario cyd-chwaraewyr 'clwyfedig' ac ymarferion datrys problemau. Gan fy mod wedi bachu ar y cyfle i greu fideo hyrwyddo o'r digwyddiad ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod, byddaf yn ffilmio trwy gydol y digwyddiad a gyda chymorth cyd-fyfrwyr Astudiaethau Ffilm, rwy'n bwriadu creu fideo hysbysebu wedi hynny. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried llogi gweithredwyr drôn (pris o £300 am ddau ddydd Sul) i ffilmio'r 'digwyddiad dirgel' o'r awyr, ond nid wyf eto wedi sicrhau cyllid ar gyfer yr opsiwn hwn.

Yr ail ddigwyddiad mawr sydd ar y gorwel yw Varsity 2020 Aber yn erbyn Bangor a fydd yn cael ei gynnal ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r Swyddfa Cyfleoedd yn gweithio mewn cydweithrediad ag Adran Cyfleoedd UM Bangor er mwyn trefnu'r digwyddiad. Dyma'r cyfrifoldebau sydd gen i yn gysylltiedig â'r digwyddiad: llogi ffotograffwyr, cefnogi'r tîm Cyfleoedd a chreu fideo hyrwyddo Varsity 2020. Rwyf wedi rhoi cyfle i fyfyrwr Astudiaethau Ffilm weithio ochr yn ochr â mi i greu'r fideo, y bydd TimAber, yn ogystal â Phrifysgol Aberystwyth, yn gallu ei ddefnyddio i hyrwyddo'r digwyddiad a thîm Prifysgol Aberystwyth. Rydym yn yr ail wythnos o saethu'r deunydd ar hyn o bryd (nod y fideo yw cynnwys yr holl grwpiau myfyrwyr sy'n cymryd rhan ac ysgogi corff y myfyrwyr i sicrhau buddugoliaeth dros dimau Bangor) ac rwyf eisoes wedi sicrhau cyllid ar gyfer llogi gweithredwyr drôn. Bydd hyn yn cyfoethogi ansawdd y fideo hyrwyddo. Rwy'n disgwyl cyflwyno'r 'brasolygiad' cyn y 18fed o Chwefror, gyda'r fersiwn derfynol yn barod i'w defnyddio cyn diwedd y mis.

Yn ystod y misoedd diwethaf, rwyf wedi bod yn edrych ar drefniadau rhywfaint o ddigwyddiadau llai ac eithaf newydd. Gyda rhai grwpiau myfyrwyr yn amlwg yn barod i helpu, rwy'n mynd i drefnu digwyddiadau *Wythnos Gall y Ferch Hon*, *Wythnos y Ddaear* ac *Wythnos Un Byd*. Yn ystod wythnos *Gall y Ferch Hon*, bydd myfyrwyr benywaidd yn gallu cymryd rhan mewn dosbarthiadau agored fydd yn cael eu cynnal gan y Ganolfan Chwaraeon a chlybiau TimAber. Bydd ffair hefyd a digwyddiad trafod agored o bosib, ynghyd â nifer o weithgareddau eraill, a drefnir gan Lydia - Y Swyddog Llesiant. Ar gyfer *Wythnos y Ddaear*, rwyf wedi cysylltu ag elusen WWF yn ogystal â grŵp myfyrwyr WWF ac rydym wrthi'n cynllunio'r gweithgareddau posibl, a allai ddigwydd trwy gydol yr wythnos. Y nod yw trefnu cwis, ffair yn seiliedig ar yr amgylchedd ac ymgyrch codi arian. Mae WWF wedi rhoi deunyddiau a ffilmiau i mi ac wedi cynnig cymorth gyda chasglu arian i elusennau. Mae cymdeithas WWF yn mynd i gysylltu â chymdeithasau eraill a byddwn yn gwybod i sicrwydd pa weithgareddau fydd yn digwydd yn agosach at fis Ebrill. O ran *Wythnos Un Byd*, rwy'n bwriadu trefnu Cwis, standin wybodaeth a gweithgareddau posibl dan ofal grwpiau myfyrwyr rhyngwladol. Mae hyn hefyd i'w gadarnhau ymhen amser.

Ar nodyn arall, rwy'n falch o gyhoeddi bod gennym bellach dri grŵp myfyrwyr ychwanegol, a sefydlwyd yn ddiweddar gan nifer o fyfyrwyr. Mae'r Gymdeithas Economeg, y Gymdeithas Ffrangeg a'r Clwb Judo wedi ymuno â theulu TimAber ac mae modd i fyfyrwyr ymuno â nhw. Mae hwn yn gam bach arall tuag at y nod o ymestyn cyrhaeddiad TimAber er mwyn i'r holl fyfyrwyr gael lle ynddo.

Rydym hefyd yn gweithio gyda UCM Cymru i drefnu Cynhadledd UCM Cymru yma yn Aber. Mae'n gyfle i ni fel Swyddogion arddangos ein gallu i gynnal Cwis a chynnal y Gynhadledd mewn modd proffesiynol.

Yn gyffredinol, rwy'n sicr bod y Swyddfa Cyfleoedd a thîm UM yn ehangach wedi bod yn brysur iawn ac wedi gweithio'n galed dros y misoedd diwethaf i sicrhau canlyniadau gwych. Mae fy ffocws yn symud o ddydd i ddydd wrth i'r dyddiadau cau ddod yn agosach. Ar hyn o bryd, y tasgau pwysicaf i mi yw cynnal digwyddiadau Superteams yn llwyddiannus, creu fideo hyrwyddo Varsity a pharatoi Cwis y Gynhadledd. O ganolbwyntio a dyfalbarhau, bydd popeth yn digwydd yn unol â'r bwriad.

Diweddariad Materion Academaidd - Chloe Wilkinson-Silk

UMCA a Diwylliant Cymreig

Diweddariad gan Tomos Ifan

Ers y cyfarfod diwethaf, mae UMCA wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus ar gyfer ail wythnos y glas a gweithio'n drylwyr tuag at gynnal yr Eisteddfod Ryng-golegol yma yn Aberystwyth ar benwythnos y 14eg o Fawrth. Mi fydd yr Eisteddfod yn ddigwyddiad lle bydd 5 Prifysgol o bob rhan o Gymru yn cystadlu mewn cystadlaethau llwyfan a chwaraeon ar draws y penwythnos gyda hyd at 400 o fyfyrwyr yn mynychu.

Mater pwysig sy'n cael llawer o sylw ydy Pantycelyn. Dw i wedi gweithio'n agos iawn gyda Rhodri Llwyd Morgan er mwyn cynllunio'r ffordd orau i hysbysebu a chreu bwrlwm am Bantycelyn. Dewisom ddau drywydd - y cyntaf oedd cysylltu gyda chyn-lywyddion a myfyrwyr 'adnabyddus' oedd wedi aros ym Mhantycelyn i greu cyfres o blogs a fideos yn egluro beth oedd mor ddeniadol am gael aros yno. Yr ail drywydd oedd cael cyfarfodydd rheolaidd rhwng Pwyllgor UMCA, Rhodri a minnau i drafod syniadau a gweld diweddariadau'r adeilad. Yn ogystal â hyn, byddwn yn cynnwys pwyllgor newydd UMCA yn syth pan fyddant wedi eu hethol er mwyn cynnal momentwm.

Digwyddiadau eraill sydd gan UMCA ar y gorwel ydy wythnos y Gymraeg lle rydym yn gobeithio creu poster/arddangosfa yn egluro hanes wal 'Cofiwch Dryweryn' a'i phwysigrwydd, gwerthu pice ar y maen a rhannu ryseitiau bwydydd Cymreig yn yr undeb. Mi fydd gynnon ni hefyd wythnos Rag sydd yng ngofal ein swyddogion Rag lle byddwn yn casglu arian at achos da.